



Dathlu 150 mlynedd

Daeth myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion Prifysgol Aberystwyth ynghyd ddydd Gwener 14 Hydref i gicio'r bar ar bromenâd enwog y dref ar gyfer dathliad diwrnod y sylfaenywyr i nodi 150 mlwyddiant y sefydliad.

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddatliadau dros gyfnod o flwyddyn i nodi canrif a hanner ers i'r Brifysgol groesawu ei myfyrwyr cyntaf i westy Fictoriaidd oedd heb ei orffen, yr Hen Goleg, ar 16 Hydref 1872.

Dan arweiniad yr Athro Jamie Medhurst, pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, yr Is-ganghellor a'r Dirprwy-Gangellorion y Fonesig Elan Closs Stephens ac Elfyn Llwyd, ciciodd gorymdaith Diwrnod y Sylfaenywyr y bar, a oedd eleni wedi ei addurno yn lliwiau coch a gwyrdd y Brifysgol, diolch i waith Dr Cathryn Charnell-White, pennaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

Dilynwyd cicio'r bar gan y brecwast traddodiadol, sy'n adlais o'r brecwast a fwynhawyd gan sylfaenywyr y Brifysgol yng Ngwesty'r Belle Vue ar y 15fed o Hydref 1872 i ddathlu'r agoriad.

Yn ystod y brecwast eleni lansiodd y Brifysgol ei chyfrol newydd i ddathlu'r 150 mlwyddiant, Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People. Mae'r gyfrol ddarluniadol hon yn dod â chyfoeth o straeon a phobl o'r gorffennol a'r presennol yn fyw trwy 150 o wrthrychau sydd yn bennaf o archif casgliadau ac adrannau academiaidd y Brifysgol.

Mae rhagor o fanylion am y dathliadau 150 mlwyddiant ar gael ar-lein.

2 Cyhoeddi Cyfrol Dathlu'r 150



5 Cyfnod newydd cyffrous o ddarparu addysg gofal iechyd




6 Night Terrors



7 Yn ogystal â'r swydd bob dydd



10 Cwrdd ag un o Gymrodryr Arweinywyr y Dyfodol



Cyhoeddir *Newyddion* ABER gan y Tim Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth.
Ffôn: 01970 622578
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Cyhoeddi Cyfrol Dathlu'r 150

Mae Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol wedi diolch i'r holl staff, myfyrwyr, cynfyfyrwyr ac eraill a gyfrannodd at greu cyfrol dathlu pen-blwydd y Brifysgol yn 150.

Cyhoeddwyd *Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People* ar Ddiwrnod y Sylfaenwyr 14 Hydref 2022 ac mae'n edrych ar agweddau a hanes y Brifysgol drwy 150 o wrthrychau.


Wrth siarad yn ystod lansiad y gyfrol yn y Neuadd Fawr, dywedodd yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol: "Bu cyhoeddi'r llyfr hwn yn ymdrech wirioneddol ar y cyd ar draws teulu eang y Brifysgol ac, fel Bwrdd Golygyddol, rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi helpu i greu cyfrol arbennig iawn a fydd yn gadael gwaddol parhaol yn dilyn dathliadau'n pen-blwydd yn 150.

"Yn ogystal â'r enwebiadau am gynnwys a ddaeth i law, aeth dros 115 o aelodau staff, myfyrwyr, cynfyfyrwr ac eraill ati i ysgrifennu testun hyfryd i gyd-fynd â delweddau o'r 150 o wrthrychau. Llundio ysgrif fer oedd dewis rhai tra bod eraill wedi cyflwyno atgofion personol, darn o ryddiaith neu gerdd. Gyda'i gilydd, mae eu geiriau yn creu darlun cyfoethog ac amrywiol o storïau, digwyddiadau a phobol o'n presennol a'n gorffennol.

"Ar adeg eithriadol o brysyr i bawb, rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd Golygyddol am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn sicrhau bod y gyfrol ddarluniadol hardd hon yn cael ei chyhoeddi mewn da bryd ar gyfer ein dathliadau Diwrnod y Sylfaenwyr."

Mae'r llyfr clawr caled, 312 o dudalennau, yn cynnwys lluniau trawiadol o'r 150 o wrthrychau gan Rolant Dafis, ffotograffydd proffesiynol sy'n byw yn Aberystwyth.

Daw mwyafrif y gwrthrychau o gasgliadau'r Brifysgol, tra bod rhai yn cael eu cynnwys trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Urdd Gobaith Cymru ac eraill.



Cystadleuaeth

Am gyfle i ennill copi o'r gyfrol, anfonwch eich ateb i'r cwestiwn isod at cyfathrebu@aber.ac.uk erbyn dydd Gwener 11 Tachwedd 2022 gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost aber.ac.uk. Caiff yr enillydd eu dewis ar hap o'r holl atebion cywir a ddaw i law.

Pan agorodd Coleg Prifysgol cyntaf Cymru ei ddrisau yn Aberystwyth ym mis Hydref 1872, sawl aelod o staff oedd ganddo?

Mae *Ceiniogau'r Werin / Pennies of the People* (Prifysgol Aberystwyth, 2022) ar gael mewn siopau llyfrau ac ar-lein, gan gynnwys gwefan y Brifysgol, am £25.

www.aber.ac.uk/cy/about-us/150-anniversary/cyfrol-dathlu



Colofn yr Is-Ganghellor



Wrth i'r nosweithiau dynnu i mewn ac i liwiau'r hydref harddu'r campws, mae dyddiau hirfelyn tesog yr haf fel atgof pell. Ond fyddai hi ddim yn iawn peidio â sôn amdanynt fan hyn. Llwyddwyd i roi diwrnod graddio haeddiannol i dair carfan o fyfyrwyr. Roedd hynny'n gamp arbennig a gyflawnwyd oherwydd llawer o waith caled gan nifer fawr o unigolion ymroddedig, felly diolch mawr iawn ichi am hyn.

Ddechrau mis Medi cyrhaeddodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr y cwrs Nyrsio. Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous i'n Prifysgol, ac fe fydd yn gymorth i ateb y galw am nyrsys ar gyfer ysbysai, gofali sylfaenol, cartrefi gofal, a gwasanaethau cymdeithasol yma yn y Canolbarth a thu hwnt. Mae 50% o'r myfyrwyr Nyrsio eleni yn siaradwyr Cymraeg, ac fe fydd y ffaith eu bod yn gallu astudio hyd at hanner eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod fanteisiol i ddefnyddwyr y gwasanaethau yn y dyfodol.

Wythnos neu ddwy ar ôl hynny cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr eraill, ac roedd yn hyfryd gweld y campws yn fwrwm o weithgareddau Croeso ac Ymgynefino. Rwy'n ddiolchgar iawn i staff ledled y Brifysgol a wirfoddolodd i ddod i gyfarch a chynorthwyo ein myfyrwyr newydd a'u teuluoedd wrth iddynt gyrraedd.

Ychwanegwyd arwyddocâd pellach i'n dathliadau ar Ddiwrnod y Sylfaenwyr, ddydd Gwener 14 Hydref eleni, am eu bod yn nodi canrif a hanner o addysgu myfyrwyr yma yn Aberystwyth. Roedd yn bleser gwirioneddol cael ymuno â myfyrwyr, staff a chyfeillion y Brifysgol hon, prifysgol gyntaf Cymru, i fanteisio ar y fath gyfle i ddathlu ein hanes a'n hetfeddiaeth eithriadol.

I ddechrau'r dydd aethom ar ein tro arferol ar hyd y Prom i gicio'r bar, cyn mwynhau ein brechwast dathlu, yr un peth a fwynhawyd gan ein rhagflaenwyr ym 1872. Fe welsom hefyd lansio'r gyfrol 150 ardderchog, Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People. Os na chawsoch gyfle hyd yn hyn i weld copi, mae'n deyrnged ardderchog i rai o'r eitemau a'r hanesion sydd wedi cyfrannu i wneud ein Prifysgol yr hyn ydyw heddiw. Gyda'r nos, cefais fwynhad mawr o gael sgwrsio â nifer o gydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol yn y parti staff.

Wrth gwrs, dim ond dechrau blwyddyn o ddiwyddiadau i nodi ein pen-blwydd arbennig oedd Diwrnod y Sylfaenwyr. Yn ystod y mis i ddod byddwn yn ymuno â chyfeillion a chyn-fyfyrwyr yng Nghaerdydd a Llundain, a thrwy gydol y flwyddyn byddwn yn ymuno hefyd â chefnogwyr o bob cwr o'r ddaear i ddathlu cyfraniad y Brifysgol i'r byd gan edrych ymlaen at y ganrif a hanner nesaf yn ein hanes.

Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor



Prifysgol i godi arian i uned ddydd cemotherapi

Pleidleisiodd myfyrwyr a staff i gefnogi'r uned ddydd cemotherapi yn Ysbyty Bronglais trwy ei gwneud yn Elusen y Flwyddyn Prifysgol Aberystwyth am 2022-23.

Cyhoeddodd Elusennau Iechyd Hywel Dda yn ddiweddar bod Apêl Cemotherapi Bronglais wedi llwyddo i godi'r gweddill o'r £500,000 oedd ei angen i barhau â'r cynlluniau i adeiladu uned ddydd cemotherapi fodern a phwrpasol yn Ysbyty Gyffredinol Bronglais, am £2.2m.

Dros y flwyddyn i ddod, bydd arian sy'n cael ei godi gan staff a myfyrwyr y Brifysgol yn mynd tuag at wella'r uned newydd a darparu gwasanaethau a gweithgareddau sydd y tu hwnt i'r hyn y mae'r GIG yn gallu eu darparu'n arferol.

Meddai'r Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Rydyn ni'n falch iawn o allu cyfrannu tuag at weledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am uned gemotherapi gwbl newydd ym Mronglais. Bydd hyn o fudd anferth i bobl yng Ngheredigion, Gwynedd a Phowys sy'n cael triniaeth yn erbyn canser. Mae cefnogi'r adnodd lleol hwn yn fater sy'n agos at galon nifer o'n staff a'n myfyrwyr, ac edrychwn ymlaen i ddangos ein cefnogaeth trwy godi arian ar y campws dros y flwyddyn i ddod."

Meddai Bettina Vance, Nyrs Glinigol Arbenigol Cemotherapi: "Rydym wrth ein bodd bod myfyrwyr a staff yn Aberystwyth wedi dewis yr uned ddydd cemotherapi yn Ysbyty Bronglais fel Elusen y Flwyddyn. Mae'r uned hon yn rhoi triniaethau

canser i gleifion ledled canolbarth Cymru. Bydd y cyfraniadau'n cynorthwyo'r adran i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau sydd y tu hwnt i'r hyn y gall y GIG eu cynnal, ac fe gaiff effaith mawr ar brofiad cleifion, teuluoedd a staff. Ar ran yr uned, hoffwn ddiolch o waelod calon am eich cefnogaeth."

Bellach ar ei ddegfed flwyddyn, nod Elusen y Flwyddyn y Brifysgol yw codi cymaint o arian â phosibl at achosau teilwng, a rhoi canolbwynt i ymdrechion codi arian staff, myfyrwyr a'r gymuned.



Staff yn Uned Ddydd Cemotherapi Bronglais

Cyflwyno sic i Ambiwllans Awyr Cymru

Ddydd Gwener 14 Hydref, cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure sic gwerth £5,200 i Ambiwllans Awyr Cymru, sef y cyfanswm a godwyd gan staff a myfyrwyr ar gyfer Elusen y Flwyddyn y Brifysgol yn 2021-22.

Meddai'r Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure: "Yma yn Aberystwyth rydyn ni'n ffodus iawn ein bod yng nghanol cefn gwlad hyfryd sy'n cynnig digonedd o gyfleoedd i bobl fynd allan i fwynhau'r byd naturiol o'u cwmpas. Ond mae rhannau o'n tirwedd yn lleol nad oes modd eu cyrraedd yn rhwydd nac yn gyflym ar hyd y ffyrdd pan geir argyfwng, a dyna pam mae'r gwasanaeth y mae Ambiwllans Awyr Cymru yn ei ddarparu yn un mor hanfodol i ardaloedd gwledig ac anghysbell fel hyn. Mae wedi bod yn bleser inni allu cefnogi'r gwasanaeth hwn, sy'n achub bywydau, trwy godi arian dros y flwyddyn diwethaf."

Wrth dderbyn y sic ar ran yr elusen, dywedodd Dougie Bancroft, Codwr Arian Cymunedol ar ran Ambiwllans Awyr Cymru: "Rydym wrth ein boddau â'r gefnogaeth yr ydym wedi'i chael ledled y campws a thu hwnt i hynny. Mae hyn yn ein cynorthwyo i gadw Ambiwllans Awyr Cymru ar waith ledled Cymru ac mae'n achub bywydau. Diolch o galon."



Elusen
Ambiwllans
Awyr
CYMRU | WALES
Air
Ambulance
Charity

Cyfnod newydd cyffrous o ddarparu addysg gofal iechyd

gan Amanda Jones, Pennaeth Addysg Gofal Iechyd



Amanda Jones
Pennaeth Addysg Gofal Iechyd

Ddechrau mis Medi, fe groesawom ni ein carfan gyntaf o fyfyrwyr nyrso i Aberystwyth. Mae'r datblygiad yn foment hanesyddol a chyffrous i'r Brifysgol ac mae'n hwb mawr i'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig yn y canolbarth.

Yn sgil y straen enfawr a fu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod pandemig COVID-19, yn ogystal â'r problemau recriwtio a oedd eisoes yn bod, bydd y datblygiad hwn yn gwneud addysg gofal iechyd yn fwy hygyrch i lawer, yn enwedig mewn rhanbarth sydd, ar y cyfan, yn wledig.

Yn rhan o'r cam cychwynnol hwn i ddatblygu Addysg Gofal Iechyd, bydd y Brifysgol yn cynnig dau gwrs gradd, sef BSc Nyrso Oedolion a BSc Nyrso Iechyd Meddwl.

Mae'r myfyrwyr yn derbyn eu haddysg yn ein Canolfan Addysg Gofal Iechyd, a agorwyd yn swyddogol gan Weinidog Iechyd Cymru, Eluned Morgan AS ar 30 Medi 2022.

Mae'r Uned Sgiliau Clinigol, sydd newydd ei sefydlu, yn gwella'r profiad dysgu i'n myfyrwyr. Ceir yma gyfres o ystafelloedd ymarfer clinigol o safon lle gall myfyrwyr ddysgu ac ymarfer eu sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r ardal efelychu hon yn adlewyrchu taith y claf o wasanaethau cartref a chymunedol drwodd i asesu, gofal wedi'i gynllunio a gofal aciwt. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i roi eu gwybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosib yr union amodau y dânt ar eu traws pan fyddant yn mynd ar leoliad i ysbty neu leoliad cymunedol.

Ymhlith yr offer dysgu newydd mae pensetiau rhith-wirionedd sy'n rhoi profiad i'r myfyrwyr o weithio â modelau o bobl sy'n heneiddio ac sydd o faint go iawn. Mae'r modelau hyn yn efelychu amrywiaeth eang o gyflyrau iechyd.

Bydd myfyrwyr yn treulio hanner y rhaglen yn astudio modiwlau damcaniaethol a'r hanner arall ar leoliad yn cael gwneud gwaith clinigol. Bydd myfyrwyr yn dysgu am hanfodion ymarfer nyrso hollistaidd, gan fodloni safonau a gofynion y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth. Byddant hefyd yn cael budd o brofiadau dysgu pwrpasol sydd wedi'u teilwra, gan ddilyn cwricwlwm a grëwyd gan y gymuned a'r amgylchedd lleol.

Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac rydym yn ymwybodol iawn o'i phwysigrwydd i lawer iawn o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r myfyrwyr sy'n gofalu amdanynt. Felly, bydd ein myfyrwyr nyrso hefyd yn cael cyfle i astudio hyd at hanner eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn hwyluso ac yn diogelu darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd cyfrwng Gymraeg o safon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Yr Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure, Gweinidog Iechyd Eluned Morgan AS, Pennaeth Addysg Gofal Iechyd Amanda Jones, ac Elin Jones AS yn agor y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd



Carfan gyntaf o fyfyrwyr nyrso ym Mhrifysgol Aberystwyth

Night Terrors -

troubled sleep and the stories we tell about it

Mae Dr Alice Vernon yn gweithio yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol lle mae'n dysgu hanfodion llunio straeon, ac yn ymchwilio i'r modd y portreadir cwsg ac anhwylderau cwsg ym meysydd gwyddoniaeth a diwylliant.

Cyhoeddwyd ei llyfr naratif ffeithiol *Night Terrors* yn gynharach y mis hwn. Gofynnodd *Newyddion* i Alice ddatgelu mwy am ei diddordeb mewn anhwylderau cwsg a'r dehongliadau goruwchnaturiol rhyfedd ohonynt.




Dr Alice Vernon

Ers pryd ydych chi wedi ymddiddori mewn hunllefau, breuddwydion eglur, a phethau sy'n creu sŵn yn y nos?

Mae'r rhain wedi bod yn rhan o 'mywyd ers pan oeddwn i'n blentyn, pan y byddwn yn cerdded o gwmpas y tŷ yn fy nghwsg ac yn cael hunllefau am Cybermen ac UFOs (yn benodol iawn). Yn fy ardegau, dechreuais brofi anhwylderau cysgu mwy rhith-weledol, ond dechreuais gael breuddwydion eglur, hefyd. Fe ddechreuais fy ngradd PhD yn Aberystwyth yn 2015, o dan oruchwyliaeth Dr Jacqueline Yallop, a oedd yn ymchwilio i'r modd y portreadir diffyg cwsg mewn ffuglen. Ond erbyn diwedd y PhD, y cyfan roeddwn i eisïau ysgrifennu amdano oedd hunllefau a pharllys cwsg—y pethau sydd wedi effeithio ar fy nghwsg am y rhan fwyaf o 'mywyd. Yn fuan ar ôl i mi gyflwyno fy nhraethawd ymchwil, cefais rithwelediadau bob nos am wythnos bod yna ysbryd yn y fflat ac nad oedd hi am i mi symud allan. Roedd yn brofiad hollol frawychus. Rwy'n credu mai dyna'r foment pan oeddwn i'n gwybod bod angen i mi ddechrau ymchwilio i'r ffordd rydym wedi portreadu ac ymateb i barasomnïau drwy gydol hanes.

Dywedwch wrthym am eich llyfr newydd a'r ymchwil a arweiniodd at ei ysgrifennu



Mae *Night Terrors* yn edrych ar ochr dywyll cwsg sy'n aml yn cael llai o sylw oherwydd ei gysylltiad â gwallgofrwydd a'r paranormal, ond er hynny bydd 70% ohonom, ar ryw adeg yn ein bywydau, yn dioddef o leiaf un o'r anhwylderau rwy'n ysgrifennu amdanynt. Trwy ddod o hyd i enghreifftiau ac astudiaethau achos hanesyddol, yn ogystal â bod yn hollol onest am

fy anawsterau cwsg fy hun, rwy'n gobeithio annog sgysïau am barasomnïau— ac i bobl deimlo'n llai rhyfedd eu bod yn eu profi, hefyd. Fy hoff lyfr yw *Dracula* gan Bram Stoker, ac wrth i mi ei ailddarllen yn ystod fy PhD sylweddolais bod trafferthion cysgu yn elfen fawr o'r stori. Yn ôl y sôn, bwytaodd Stoker fwyd môr a oedd wedi dechrau troi, a chafodd hunllef a roddodd yr ysbrydoliaeth iddo greu ei fampir eiconig. P'un a yw hynny'n wir ai peidio, rwy'n meddwl bod modd darllen y llyfr cyfan fel un metaffor mawr am anhwylderau cwsg; parlys cwsg, rithweledigaethau, cerdded yn eich cwsg—mae *Dracula* yn ennyn pob un ohonynt. Mae fy ymchwil yn dechrau gyda *Dracula*, ond mae'n cwmpasu amrywiaeth o bethau rhyfedd ac annisgwyl, o Dreialon Gwrachod Salem i ddyddiaduron breuddwydion o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, o'r Arglwyddes Macbeth i hanesion am bobl yn cael eu cipio gan greaduriaid o'r gofod.

O'r holl 'barasomnïau', pa un yw'r un mwyaf brawychus yn eich barn chi?

Mae pob parasomnia yn frawychus mewn ffordd wahanol. Bydd rithweledigaeth o gorr yn yn fy ngwely yn gwneud i mi neidio allan o'r gwely, ond yna mi fydda i'n tawelu yr un mor gyflym ac yn syrthio i gysgu eto. Mae parlys cwsg, ar y llaw arall, yn fygythiad llawer arafach a mwy sinistr, ac er fy mod i'n gwybod nad oedd y profiad yn un real, mae'n gallu effeithio ar fy hwyliau y diwrnod canlynol.

Pe bai rhywun yn gallu addo noson dawel a di-freuddwyd i chi bob nos, a fydddech chi'n derbyn y cynnig?

Yn rhyfedd, dwi ddim yn meddwl y byswn i! Er y byddai'n braf peidio â chael rithwelediadau, ac i wybod yn bendant na fydda i byth yn cerdded yn fy nghwsg eto, rwy'n teimlo bod breuddwydion—yn enwedig y wefr ryfeddol o gael breuddwydion eglur—yn hynod ddiddorol. Ac fel rhywun sydd â diddordeb mewn ffuglen arswyd, mae'r cwbl yn gymorth i lunio straeon ardderchog!

Yn ogystal â'r swydd bob dydd

Mae Dr Amanda Clare yn uwch ddarlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys bioleg gyfrifiadol, genomeg, deallusrwydd artifisial a chloddio data.

Y tu allan i'r gwaith, mae hi'n dysgu pobl i ddawnsio swing!

Aethom i siarad ag Amanda i gael gwybod mwy...

Allech chi egluro beth yw dawnsio swing?

Mae'n ddawns o'r 1930au yn America pan oedd bandiau mawr yn chwarae cerddoriaeth swing a phobl yn mwynhau cymdeithasu a dawnsio gyda'r nos. Mae'n ddawns hapus egniol gyda phartner sydd â'i gweiddiaid mewn dawnsio tap, jazz, Charleston ac Affricanaidd.



Pryd a sut wnaethoch chi ddechrau dawnsio swing?

Yn 2004 daeth myfyriwr PhD ar ymweliad i'r Adran Gyfrifiadureg a dechreuodd sôn am fwynhau dawnsio swing yn ôl yn Norwy. Yna fe wnaethon ni ei roi mewn cysylltiad â myfyriwr gradd Meistr o America oedd yn astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol a oedd hefyd wedi sôn am ddawnsio swing. Dangosodd y ddau ohonyn nhw ychydig o ddawnsio i ni ac roedden ni wedi gwirioni.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am ddawnsio swing?

Mae'r gerddoriaeth yn hwyl, mae naws chwareus y ddawns yn hwyl ac mae'r bobl yn y grŵp yn gyfeillgar iawn. Mae'n ddawns gymdeithasol iawn sy'n fy nenu oddi ar y cyfrifiadur ac yn gwneud i mi wenu.

Soniwch ychydig am AberSwing

Mae AberSwing wedi cael ei gynnal byth ers hynny, ers 2004. Mae gennym ni bobl o bob oed, o fyfyrwr hyd at bobl wedi ymddeol sy'n llawn egni. Rydyn ni'n dawnsio Lindy Hop a Charleston a Solo Jazz. Rydyn ni'n newid partneriaid yn aml



trwy gydol y dosbarth er mwyn i ni i gyd ddysgu sgiliau arwain a dilyn da. Mae hyn hefyd yn golygu nad oes angen i neb ddod gyda phartner, ac rydyn ni i gyd yn cael dawnsio gyda phawb arall.

Os oes gan rywun ddiddordeb mewn dawnsio swing, pa gyngor fydddech chi'n ei roi?

Dewch ar y noson a rhwch gynnig arni. Mae gennym ddsbarthiadau sy'n croesawu dechreuwyr yn Neuadd yr Eglwys Llanbadarn bob nos Fawrth am 7.30pm. Gwisgwch ddillad cyfforddus ac esgidiau ysgafn. Rydych chi'n talu faint a fynnoch, rhwch rodd yn y tun. Mae'n ddawnsio egniol felly gallai potel o ddŵr fod yn syniad da.



KEEZLE

WACKA



Cat Griffiths a Beckie Sweeney

Fel y gŵyr darllenwyr ffyddlon ^{ABER} *Newyddion* bob hyn a hyn rydym yn gwahodd Tîm Llywodraethu Gwybodaeth y Brifysgol i roi cipolwg i ni ar rai o'r eitemau rhyfeddol sydd yn archif y Brifysgol.

Mae colofn Keezle Wakka yn y rhifyn hwn wedi'i ysgrifennu gan Catrin Griffiths (Cat) a Beckie Sweeney a hwythau ill dwy wedi ymuno â'r tîm yn ystod y pandemig.

Darganfod Olivia

Roedd dechrau swydd newydd yn ystod COVID yn sicr yn heriol ac yn ddi-os roedd angen dysgu llawer mewn dim o dro!

Daeth ein cyflwyniad i archif y Brifysgol yn ystod ein hwythnos gyntaf pan soniodd Cat bod ei hen fodryb, Olivia Griffiths, wedi graddio o Brifysgol Cymru tua 1900.

Mae rhai o'r cofnodion myfyrwyr o'r cyfnod cynharaf wedi'u digideiddio, felly dyma oedd ein man cychwyn. Llwyddom i ddod o hyd i gofnod myfyriwr Olivia yng **nghofrestr myfyrwyr 1908**. Oni fyddai'n wych petaem yn gallu dod o hyd i ffotograff ohoni yn ystod ei hamser yn astudio yma?

Drwy gyhoeddiadau eraill (cylchgrawn *The Dragon*) gwelsom fod Olivia yn aelod o Gyngor Cynrychiolwyr y Myfyrwyr, a hynny wedi ein harwain at lun Cyngor Cynrychiolwyr Myfyrwyr CPC 1910-11, ac Olivia yn y llun hwnnw.



Cyngor Cynrychiolwyr Myfyrwyr CPC 1910-11


Cadarnhaodd Calendr CPC 1910 wedyn ei bod wedi graddio'r flwyddyn honno gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Almaeneg.

Syndod oedd gweld ei henw yn **Adroddiadau a gyflwynwyd i Lys y Llywodraethwyr** yn nodi ei chyflogi yn adran Addysg y Brifysgol. Mae'r gofrestr staff sydd yn yr archif yn cofnodi rôl Olivia yn 'Mistress of Method'.

Ar ôl gweithio'n gyfan gwbl o gartref fel tîm newydd am y chwe mis cyntaf, cawsom wedyn y dasg o helpu i glirio'r Hen Goleg (gan gynnwys symud yr archif). Hwn oedd ein cyfle cyntaf i weithio gyda'n gilydd yn y cnauld (y tu ôl i fasg ac yn cadw pellter cymdeithasol, wrth gwrs) a phwy na fyddai eisiau crwydro pob cornel o'r adeilad hardd, hanesyddol hwn?




Archif yr Hen Goleg




Peth o'r graffiti ar waliau'r tŵr yn yr Hen Goleg

Fel y gallwch ddychmygu, daethom o hyd i bethau diddorol iawn ac weithiau pethau braidd yn frwnt hefyd. Daethom ar draws bron i gan mlynedd o gofnodion hyfforddi athrawon o 1890 ymlaen, waliau wedi'u gorchuddio â graffiti yn y tŵr a rhan o drên o fflôt RAG yn yr atig (ac wrth gwrs roedd yn rhaid i ni achub hwnnw, yn doedd, felly diolch i bwy bynnag wnaeth ei gario i lawr yr holl risiau yna!).

Roedd Beckie yn arfer gweithio yn yr adran Preswylfeydd, felly mae ganddi ddiddordeb arbennig yn hanes llety'r Brifysgol, ac yn benodol, y ffurflenni cais gan fyfyrwagedd yn gwneud cais i fyw yn Neuadd Alexandra, a'r ffurflenni hyn gennym o 1907. Felly sut rydyn ni'n gwybod sut beth oedd byw yn Neuadd Alexandra flynyddoedd yn ôl? Rydym yn ffodus i gael llythrau yn yr archifau oddi wrth Miss Olive Marsh a symudodd yno yn 1898, ddwy flynedd ar ôl agor y neuadd breswyl newydd yn swyddogol gan Dywysoges Cymru, a roddodd ei henw ei hun 'Alexandra' arni. Ond mae honno'n stori arall at rywbryd eto...



Cofnodion hyfforddi athrawon wedi'u hachub o seler yr Hen Goleg



Allwch chi ddychmygu defnyddio'r ffurflen hon heddiw?

Ar ôl misoedd o ddadbacio yng nghartref newydd Archifau'r Brifysgol yng Ngogerddan, rydym o'r diwedd yn barod i'ch croesawu i'r ystafell ddarllen. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod i weld yr archifau, cysylltwch â ni drwy archives@aber.ac.uk.

Rydym hefyd bob amser yn chwilio am bethau i'w hychwanegu at y casgliadau, felly os oes gennych unrhyw eitemau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol sydd angen cartref da, yna edrychwn ymlaen at glywed gennych.



Rhan o drên o fflôt RAG wedi'i ddarganfod yn yr atig



Ystafell ddarllen newydd yn adeilad yr Arglwydd Milford, Gogerddan

Pam "Keezle Wacka"?

Mae teitl y golofn wedi deillio o 'Floedd y Coleg', sy'n tarddu o 1905 pan benderfynwyd cael siant y gellid ei defnyddio i gefnogi myfyrwyr Aber mewn digwyddiadau chwaraeon rhyng-golegol. Yn dilyn cystadleuaeth yng Nghwad yr Hen Goleg, pan gyflwynwyd sawl bloedd bosibl gan eu cyfansoddwyr, cafodd y floedd fuddugol ei dewis. Cafodd yr ymadrodd 'Keezle Wacka', a ddefnyddir ym Mloedd y Coleg, ei ddewis yn ddiweddarach fel teitl ar gyfer cylchgrawn RAG Aberystwyth a gyhoeddwyd am sawl degawd, ac roedd hefyd yn deitl trawiadol ar gyfer y golofn hon.

Cwrdd ag un o Gymrodyr Arweinwyr y Dyfodol



Dr Gabriel Rinaldi

Ymunodd Dr Gabriel Rinaldi ag Adran y Gwyddorau Bywyd ym mis Awst i ymgymryd â Chymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol, sy'n gymrodoriaeth uchel ei bri a ddyfarnwyd gan y corff Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Mae'r wobwr yn dathlu academyddion blaenllaw ar ddechrau eu gyrfa yn y DU ac yn rhoi cymorth iddynt barhau â'u hymchwil i'r problemau mwyaf a wynebwr gan gymdeithas.

Cawsom sgwrs â Gabriel i ddysgu mwy amdano ef a phwysigwydd ei ymchwil.

Rhowch ychydig o'ch cefndir i ni

Cefais fy hyfforddi i fod yn feddyg ac fe fûm yn Feddyg Teulu am saith mlynedd yn fy mamwlad, Wrwgwái.

Fodd bynnag, yn fuan ar ôl dechrau fel myfyriwr israddedig cefais fy swyno hefyd gan wyddoniaeth sylfaenol; yn arbennig felly geneteg a bioleg foleciwlaidd.

Pan oeddwn yn gweithio fel meddyg teulu, cofrestrais am radd Meistr yn y Gwyddorau ac yna PhD mewn Parasitoleg Foleciwlaidd yn Ysgol y Gwyddorau, UDELAR.

Yna, fe wnes hyfforddiant ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol George Washington (Washington DC), lle datblygais brotocolau a'u hoptimeiddio ar gyfer cynnal ac addasu genynnau llyngyr parasitig sy'n effeithio ar gannoedd o filiynau o bobl ledled y byd.

Yn nes ymlaen, symudais i'r Deyrnas Unedig i fod yn Uwch Wyddonydd Staff yn Sefydliad Wellcome Sanger yng Nghaergrawnt. Yno, arweiniais brosiectau ar addasu genynnau llyngyr parasitig a sefydlu llwyfan genomig a oedd yn cynnwys technolegau moleciwlaidd arloesol a thechnolegau'r gwyddorau-'omeg' i astudio bioleg sylfaenol y parasitiaid hyn.

Rwyf bellach wedi dod â'r dechnoleg hon i Adran y Gwyddorau Bywyd trwy gyfrwng Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol, a ddyfarnwyd gan y corff Ymchwil ac Arloesi yn y DU.

Beth yw eich argraffiadau cyntaf o Aberystwyth?

Fe ymwelais ag Aberystwyth am y tro cyntaf gyda fy nheulu yn 2018, pan gynhaliwyd cyfarfod Cymdeithas Parasitoleg Prydain ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gwnaeth harddwch y dref a'r cytgord rhwng yr arfordir a'r brynau gwyrdd godidog oddi amgylch gymaint o argraff arnom.

Mae'r bobl yn glên a chyfeillgar iawn, ac er bod Aberystwyth yn dref gymharol fach, mae yma gymuned fawr amrywiol ac mae iddi ymdeimlad "rhyngwladol" unigryw.

Gan mod i'n dod o dref lan môr yn Wrwgwái, ac wedi byw mewn dinasoedd mewndirol ers dros ddegawd bellach, mae ymgartrefu mewn lle mor baradwysaidd ger y môr bron fel mynd yn ôl adref.

Beth yw Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol?

Mae cynllun Cymrodoriaethau Arweinwyr y Dyfodol, a ddyfarnir gan UKRI, yn rhoi cymorth hirdymor i gymrodyr fynd i'r afael â rhaglenni uchelgeisiol neu gwestiynau aml-ddisgyblaethol.

Gyda chymorth y Gymrodoriaeth gallaf barhau â datblygiad fy ngyrfa, sefydlu fy nhîm ymchwil fy hun fel arweinydd rhaglen ymchwil arloesol, ac ymuno â chymuned ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol ym maes clefydau heintus yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Bydd hefyd yn hwyluso cyflawni prosiect ymchwil uchelgeisiol, sy'n canolbwyntio ar enomeg swyddogaethol a bioleg foleciwlaidd a datblygiadol y llyngyr lledog parasitig sy'n gyfrifol am Glefydau Trofannol Difrifol sydd wedi'u hesgeuluso.



Mae schistosomiasis yn effeithio ar 250 miliwn o bobl ledled y byd ac yn cael ei achosi gan lyngyren ledol parasitig o'r enw schistosoma.

Beth yw testun eich ymchwil a pham mae'n bwysig?

Mae fy niddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau bioleg cellau a moleciwlau ynghyd â genomeg i astudio Clefydau Trofannol wedi'u hesgeuluso.

Llyngyr parasitig o'r enw sgistosomau yw asiantau heintus y clefyd sgistosomiasis, sef clefyd difrifol sy'n effeithio ar fwy na 250 miliwn o bobl ac yn lladd miloedd mewn Gwledydd Incwm Isel a Chanolig bob blwyddyn. Mae'r clefyd yn gysylltiedig â llid yr afu a ffibrosis, neu batholeg yr arennau a'r bledren (gan gynnwys canser y bledren), yn dibynnu ar rywogaeth y parasit.

Mae triniaeth sgistosomiasis yn dibynnu'n llwyr ar un cyffwr (praziquantel), ond mae arwyddion bod ymwrthedd i'r cyffwr hwnnw'n dod i'r amlwg. Mae hyn felly'n golygu bod angen dirfawr am strategaethau newydd i reoli'r clefyd.

Trwy ddefnyddio dulliau arloesol o faes bioleg foleciwlaidd, fy nod yw datgelu ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â datblygiad cynnar parasitiaid gwrywaidd a benywaidd a'u dulliau o ryngweithio â'r organeb letyol. Bydd hyn yn y pen draw yn datgelu gwendidau y gellir manteisio arnynt trwy ddefnyddio strategaethau newydd i'w rheoli, gan gynnwys cyffuriau a brechlynnau.

Yn olaf, pe baech chi'n gallu dysgu unrhyw allu newydd yn gyflym ac yn hawdd, beth fyddai hynny?

Pe byddai modd gwneud hynny'n hawdd a chyflym, byddwn yn ceisio gwella fy sgiliau biowybodeg. Ar ôl gweithio yn Sefydliad Wellcome Sanger, a gweld dros y blynyddoedd y rhyngweithio hynod ffrwythlon rhwng ymchwilwyr "labordy sych" (h.y. biowybodegyddion) a "labordy-gwlyb", hoffwn pe bawn i wedi gallu dysgu mwy o foleg gyfrifiadurol yn gynnar yn fy ngyrfa. Rwy'n credu, erbyn heddiw, ei bod yn hanfodol i fyfyrwyr yn unrhyw faes biofeddygol gael eu hyfforddi i ddadansoddi data ar raddfa fawr er mwyn taflu goleuni ar hen gwestiynau sylfaenol mewn bioleg.

Achredu Arolygydd Ymchwil Cydnabyddedig

Yr Athro Stephen Tooth o'r Adran Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear yw'r academydd cyntaf o Brifysgol Aberystwyth i gael ei achredu yn Arolygydd Ymchwil Cydnabyddedig gan Gyngor Addysg Graddedigion y Deyrnas Unedig (UKCGE).



Mae'r achrediad yn adlewyrchu'r cyfuniad o gyfrifoldebau eang, heriol a hynod gymhleth sydd ynghlwm ag arolygu ymchwil yn y byd sydd ohoni. Mae'n gofyn i ymgeiswyr fyfyrion ar ddeg agwedd wahanol ar eu swyddogaeth fel arolygydd, gan ystyried eu cryfderau a nodi elfennau y gallent, o bosibl, eu gwella.

Wrth sôn am y broses, dywedodd yr Athro Stephen Tooth: "Roedd fy nghais am ddyfarniad Arolygydd Ymchwil Cydnabyddedig yr UKCGE yn gyfle imi fyfyrion ar fy mhrofiadau o safbwynt y gwahanol agweddau ar arolygu ymchwil uwchraddedig, o gysylltu â darpar ymgeiswyr i fod yn fyfyrwyr ymchwil, i reoli'r berthynas rhwng myfyrwyr ymchwil a'r arolygydd, i'w cynghori ar gyflwyno traethodau ymchwil a'u cyfleoedd o ran eu gyrfa wedi iddynt ennill eu doethuriaeth.

"Roedd fy nghofnod myfyriol yn golygu bod angen imi nodi sut y bu imi lwyddo, llwyddo'n rhannol a methu o ran yr agweddau hyn ac agweddau eraill, a hynny'n fy ngalluogi i gysylltu'r profiadau hyn â'r casgliad cynyddol o astudiaethau mewn pynciau penodol ac yn fwy cyffredinol ar yr arferion gorau wrth arolygu myfyrwyr ymchwil."

Mae rhagor o wybodaeth am achrediad Arolygydd Ymchwil Cydnabyddedig yr UKCGE ar gael ar: <https://supervision.ukcge.ac.uk/good-supervisory-practice-framework>.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae'r broses yn cael ei chynnal ar y cyd rhwng Ysgol y Graddedigion a'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu. Am fwy o fanylion ynglŷn â sut i ymgeisio, ewch i: <https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/supervisory-framework> neu cysylltwch ag Annette Edwards ar sfastaff@aber.ac.uk.



RESEARCH
SUPERVISION
RECOGNITION
PROGRAMME
UK Council for Graduate Education



Bev Herring

Munud yng nghwmni ...

Pennaeth newydd Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Bev Herring

Ers faint ydych chi'n gweithio yn y Brifysgol?

Rwyf i wedi bod yn y Brifysgol ers 17 o flynyddoedd yn gweithio mewn nifer o rolau ym maes gyrfaoedd: cyflwyno gweithdai i fyfyrwyr, rheoli Siop Swyddi'r Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr, a gweithio ar brosiectau GO Wales i godi sgiliau graddedigion yn y gweithle lleol a chreu cyfleoedd i gysgodi gwaith a lleoliadau gwaith i raddedigion. Yn fwyaf diweddar, roeddwn i'n Ymgynghorydd Gyrfaoedd yn gweithio ochr yn ochr â'r Ysgol Fusnes ac Ysgol y Graddedigion ac Astudiaethau Gwybodaeth, cynrychiolydd arweiniol gyrfaoedd o fewn y Gyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol, Arweinydd Tîm Ymgynghorol Gyrfaoedd ac arweinydd prosiect Ymgorffori Cyflogadwyedd. Yn allanol rwyf i'n Hyfforddwr Cenedlaethol ar gyfer Cymdeithas Gwasanaethau Ymgynghorol Gyrfaoedd Graddedigion (AGCAS), fy nghorff proffesiynol, yn cyflwyno ar yr MA ym Mhrifysgol Warwick mewn Gwybodaeth Cyngor ac Arweiniad Addysg Gyrfaoedd. Rwyf i hefyd yn fentor i weithwyr proffesiynol ym maes gyrfaoedd ar draws y DU, ac yn eistedd ar Bwyllgor Dysgu Gweithredol AGCAS

Soniwch wrthym ni am eich rôl newydd

Mae fy rôl newydd yn cynnwys gweithio'n strategol, yn weithredol ac yn gydweithredol i sicrhau bod cyflogadwyedd yn cael ei ymgorffori, yn hygyrch ac yn rhan o naratif cyffredin y brifysgol wrth symud i'r dyfodol.

Beth yw eich blaenoriaethau cyntaf yn y swydd newydd?

Sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynhwysfawr, yn briodol ac yn hawdd eu llywio ble bynnag y mae unrhyw fyfyrwr neu fyfyrwr graddedig yn eu syniadau gyrfaol, meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth (a phartneriaeth) staff yn y Gwasanaeth a'u cyfraniad at yr Agenda Cyflogadwyedd, ac adolygu Strategaeth Cyflogadwyedd bresennol PA yn barod at y 5 mlynedd nesaf.

Pwy sydd yn eich tîm?

Mae gennym ni bum tîm yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd:

Mae'r Ymgynghorwyr Gyrfaoedd yn gysylltiedig ag adrannau academiaidd, dau i bob cyfadran. Maen nhw'n gweithio gyda chydlynwyr academiaidd i sicrhau bod cynnwys cyflogadwyedd yn cyd-fynd â deilliannau dysgu a chyflwyno addysgu a/neu asesiadau, yn ogystal â darparu gwasanaethau gyrfaoedd ehangach fel apwyntiadau un i un, gweminarau a gwaith allgymorth adrannol.

Ymgysylltu â Chyflogwyr - tîm o ddau sy'n gyfrifol am raglen Interniaethau AberYmlaen a chysylltu â chyflogwyr i gynig amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y campws ac ar-lein, gan sicrhau bod gennym ni ddigon o gyfleoedd i'n myfyrwyr a'n graddedigion diweddar ymgysylltu'n rhagweithiol gyda chyflogwyr a meithrin y rhwydweithiau hollbwysig yna. Un digwyddiad o'r fath yw'r Ffair Yrfaoedd a gynhelir ar 25 Hydref yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Mae'r Rhaglen Cymorth Parodrwydd Gyrfaoedd yn newydd eleni ac yn cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra'n fwy i fyfyrwyr a graddedigion diweddar sy'n awyddus i feithrin hyder wrth lywio drwy'r Gwasanaethau Gyrfaoedd, ac mae'n cynnwys coetsio a mentora ochr yn ochr â digon o gyfle ar gyfer hunan-fyfyrto.

Y tîm Llinell Flaen yw'r drws i mewn i'n gwasanaeth. Mae'r tîm yn cynnig gwasanaeth brysbennu gan gynnwys cymorth galw heibio i sicrhau bod pob myfyrwr yn cael y cymorth sy'n iawn iddyn nhw. Gyda lleoliad delfrydol yn Undeb y Myfyrwyr maen nhw'n hygyrch, ond hefyd mae modd cysylltu â nhw drwy ebost a'r gwasanaeth ymholiadau ar-lein.

Yn olaf mae cymorth Menter i'r rheini sydd â dawn neu gyweirnydd entrepreneuriaidd. Rydym ni'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys cipolygon, modelau rôl, cystadlaethau a heriau o fewn a'r tu hwnt i'r cwricwlwm, ochr yn ochr â mentora busnes un i un hygyrch ac wythnos busnesau newydd rhithwir ledled Cymru yn llawn gwybodaeth a rhyngweithio.

Yn olaf oes gennych chi dalent gudd na fydddech chi'n sôn amdani ar ffurflen gais am swydd?

Fy mod wedi hyfforddi'n wreiddiol fel archeolegydd ac er fy mod yn rhoi'r credyd am fy hyder wrth siarad yn gyhoeddus i fy nghwrs TAR, yn ddistaw bach rwy'n credu ei fod yn dod yn sgil fy rôl mewn cynhyrchiad Eve Ensler yng Nghanolfan y Celfyddydau a werthodd bob tocyn tair noson yn olynol.

Cydnabyddiaeth i Dechnegydd yr Ystadau am wirfoddoli gyda'r bad achub am 40 mlynedd

Mae Peter Heading, Technegydd Ystadau'r Brifysgol, wedi derbyn gwobr gwasanaeth hir 40 mlynedd gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) i gydnabod ei wasanaeth arbennig yn wirfoddolwr gyda chriw Bad Achub Aberystwyth.

Dechreuodd Peter wirfoddoli yn 22 oed, a dywedodd wrth *Newyddion* sut y digwyddodd hynny: "Roeddwn i'n arfer treulio llawer o fy amser sbâr i lawr yn harbwr Aberystwyth ac yn mynd mas yn fy nghwch fy hun, yn pysgota ac yn mwynhau mynd mas i'r môr. Roeddwn yn aml yn gwyllo'r bad achub yn mynd mas ar alwadau ac yn raddol dechreuais ddod i adnabod rhai o griw'r bad achub. Uwch lywiwr y bad achub ar y pryd oedd Tommy Ridgway, a oedd yn arfer bod yn dechnegydd Daeareg yn y Brifysgol (ac yntau drwy gyd-ddigwyddiad wedi derbyn gwobr gwasanaeth hir 50 mlynedd eleni) - fe oedd wedi fy mherswadio i ymuno â'r criw."

Ar ôl dechrau fel aelod dan hyfforddiant, treuliodd Peter wedyn un mlynedd ar ddeg yn griwmon ac yn llywiwr, cyn cymryd yr awenau fel uwch lywiwr am naw mlynedd hyd nes iddo ymddeol yn 2004 (ar y pryd polisi'r RNLI oedd bod yn rhaid i griw bad achub y glannau ymddeol yn 45 oed). Parhaodd i wirfoddoli fel mecanig yr orsaf ac yn yrwr tractor, a nawr fel rhan o'r criw ar y lan.

Aeth Peter i Arddwest Cydnabod Gwirfoddolwyr yr RNLI yn Neuadd Llangoed ger Llyswen ym Mhowys ar 25 Medi, ynghyd â 100 eraill o Gymru, Gorllewin Lloegr ac Ynys Manaw sydd wedi rhoi gwasanaeth hir. Cyflwynwyd ei wobwr am wasanaeth hir gan Michael Vlasto MBE, Rheolwr Gweithrediadau'r RNLI sydd wedi



Peter Heading

ymddeol a chyn-Arolygydd Rhanbarthol Cymru a Gorllewin Lloegr.

Nid dyma'r wobwr gyntaf i Peter dderbyn gan yr RNLI. Yn ogystal â derbyn medalau aur, diemwnt a phlatinwm Jiwbil'r Frenhines fel aelod o griw'r bad achub, cyflwynwyd gwobr y Gymdeithas Ddyngarol Frenhinol iddo yn 1986 am fynd i mewn i'r harbwr o'r bad achub i godi corff. Yn 1990 dyfarnwyd Medal Efydd yr RNLI am Ddewrder iddo ef a chyd-aelod o'r criw ar ôl achub cwch hwylio mewn storm yn ogystal â Gwobr Ralph Glister am yr achub mwyaf clodwiw gan fad achub y glannau y flyyddyn honno.

Dywedodd Peter: "Mae yna gyfeillgarwch gwych rhwng holl griwiau'r badau achub, ac rwy'n ddiolchgar i griw Aberystwyth ddoe a heddiw, gan fy mod wir wedi mwynhau fy amser gyda'r RNLI."

Myfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn ennill gwobr amrywiaeth adrannol newydd

Mae'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol wedi dyfarnu ei Gwobrau Amrywiaeth Myfyrwyr cyntaf, sy'n cydnabod y gwaith y mae myfyrwyr yr adran yn ei wneud i wella amrywiaeth.

Yr enillwyr yw Jasneet Kaur Samrai sydd yn y drydedd flyyddyn a Johannes Lindem a raddiodd yn 2022.

Derbyniodd Jasneet Kaur Samrai y wobwr am sefydlu Centre Aberystwyth, cymdeithas ymgyrchu sy'n gweithio gyda myfyrwyr, y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r dref i ddod o hyd i ddatrysiadau i faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr. Yn ddiweddar bu'r gymdeithas yn gweithio ar ddau fater allweddol: creu coalisiwn ar ymosodiad rhywiol a gwaith yn ymwneud â sbectio.

Derbyniodd Johannes Lindem o Norwy, a raddiodd ym mis Gorffennaf, y wobwr i gydnabod yr effaith a gafodd fel Prif Olygydd Interstate, y cyfnodolyn a gynhyrchwyd gan fyfyrwyr. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, fe wnaeth sefydliadol i llwyddo

i annog cydraddoldeb rhwng y rhywiau, llwyddodd i wella cyfranogiad cyfrwng Cymrae a mynediad ar-lein.

Mae'r ddau enillydd yn derbyn gwobr o £100, yn rhoddedig gan Gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Dywedodd Dr Lucy Taylor, Trefnydd Gwobrau Amrywiaeth Myfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol: "Rydym am feithrin diwylliant sy'n dathlu cymuned amrywiol ein hadran. Wrth gwrs, mae myfyrwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin newid cadarnhaol, yn ogystal â staff. Roeddem wrth ein boddau i ddyfarnu'r wobwr gwbl haeddiannol hon ar y cyd i Jasneet a Johannes - llongyfarchiadau iddynt!"

Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Jonathan Fry

Yn ddiweddar etholwyd Jonathan Fry, Darlithydd mewn Busnes a Rheolaeth, yn Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer 2022-2024.

Gwahoddwyd Jonathan i ysgrifennu darn am y Coleg a'r gweithgareddau sydd ar y gweill i ddathlu ei ben-blwydd yn 10 oed.

Efallai fod rhai ohonoch chi wedi clywed am Gangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ond efallai nad ydych chi'n sicr am ei gylch gwaith, a sut mae'n wahanol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Diben yr erthygl hon yw rhoi atebion i'r cwestiynau hyn a manylion am sut y gallwch gymryd rhan.

Mae Cangen Aberystwyth wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ym Mhenbryn (uwchben Medrus). Wedi'i gweinyddu gan Dr Tamsin Davies a Sharon Owen, dau swyddog a gyllidir gan y Coleg, mae'r gangen yn rhoi cymorth a chynngor i staff academiaidd (e.e. y rheini â phrosiectau a ariennir gan y Coleg) a myfyrwyr (e.e. y rhai sy'n derbyn ysgoloriaethau gan y Coleg).

Er bod y prif ffocws ar y ddarpariaeth academiaidd i israddedigion trwy gyfrwng y Gymraeg, mae yna hefyd ystyriaethau pwysig eraill sy'n cael eu hamlygu a'u trafod, megis ymchwil cyfrwng Cymraeg, ysgoloriaethau PhD, Marchnata a Denu Myfyrwyr yn ogystal â'r Dystysgrif Sgiliau Iaith sy'n agored i staff a myfyrwyr.

Mae gan y gangen hefyd Bwyllgor, sydd â rôl goruchwyllo a datblygu darpariaeth academiaidd drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol.

Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys pob aelod o staff sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n cefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg, staff academiaidd-berthynol sy'n cefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, staff mewn gwasanaethau proffesiynol sydd â rôl mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynrychiolwyr myfyrwyr gan gynnwys Llywydd UMCA.

Os ydych chi'n bodloni un o'r categorïau hyn ac nad ydych yn derbyn negeseuon e-bost yn eich gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gangen, rhowch wybod i mi - jof36@aber.ac.uk.

Nodi 10 mlynedd ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rydym yn hynod o falch o gael cyhoeddi manylion tri phrosiect sy'n dathlu 10 mlynedd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

Digwyddiad Cyflogadwyedd 25-10-2022 am 09:10:

Digwyddiad cymysg a gynhelir ar-lein drwy MS Teams ac yn Sinema Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Rydym wedi trefnu bod cyn-fyfrwyr o'r adrannau Busnes, Addysg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, y Gyfraith a Throseddeg a'r Gymraeg yn cymryd rhan mewn sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda staff academiaidd:

Prif Siaradwr: Rhiannon Heledd Williams 'Y Gymraeg a'r Gweithle Cyfoes'

Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael yn y digwyddiad hwn.

Cynhadledd Ymchwil 22-11-2022 am 10:00:

Bydd y gynhadledd yn amlygu ymchwil cyfrwng Cymraeg a gynhaliwyd gan staff Prifysgol Aberystwyth dros y degawd diwethaf. Rydym yn bwriadu cynnal o leiaf un cyflwyniad gan bob un o'r Cyfadrannau.

Cyhoeddi llyfr yn dathlu uchafbwyntiau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth:

Bydd y llyfr yn cynnwys cyfraniadau gan adrannau academiaidd a chyn-fyfrwyr.

Fel y gwelwch o'r erthygl hon, mae llawer o ddigwyddiadau ar y gweill a digonedd o gyfleoedd i gymryd rhan!

Diweddariad gan UMaber



Swyddogion Newydd Llawn-Amser

Hoffem eich cyflwyno i'n tîm newydd o Swyddogion Llawn-Amser ar gyfer 2022/23, a hwythau wedi dechrau yn eu swyddi gyda ni ym mis Gorffennaf.

- **Aisleen**, Llywydd Undeb y Myfyrwyr: "Rydw i eisiau bod yn llais gweithgar i'r myfyrwyr felly cysylltwch â fi ynglŷn ag unrhyw beth".
- **Dafi** yw Llywydd UMCA a'r swyddog sy'n gyfrifol am Ddiwylliant Cymraeg, a'i nod yw "ymgyrchu i gael cymaint o gydraddoldeb â phosib i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith".
- Dyma pam y gwnaeth **Cameron**, y Swyddog Llesiant, benderfynu sefyll yn yr etholiad am y swydd: "Rwy'n ymgyrchydd ar-lein ar gyfer amrywiaeth o grwpiau a mudiadau ac rwy'n hoffi rhannu fy mhrofiadau personol o iechyd meddwl, anabledd, rhywedd, a niwroamrywiaeth yn gyhoeddus er mwyn helpu eraill".
- Mae dwy Swyddog Llawn-Amser yn dychwelyd, sef **Elizabeth** (Swyddog Materion Academaidd), sy'n edrych ymlaen at "ddal ati i weithio ar faterion a fydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar fyfyrwyr", a **Rachel** (Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr), sy'n edrych ymlaen at "gwrdd a gweithio gyda'r myfyrwyr i sicrhau'r bywyd gorau posibl iddynt yn y Brifysgol".

Wythnos y Glas

Wrth edrych yn ôl ar gyfnod llwyddiannus arall HeloAber, a ninnau'n croesawu'r glasfyfyrwyr.

Cynhaliwyd Ffair flynyddol y Glas yn y babell fawr ar Gwrt y Capel, gan ddenu 3,000 a mwy o fyfyrwyr! Roedd 180 o stonidnwy yn rhan o'r digwyddiad tridiau o hyd.

Buom hefyd yn gweithio gyda thîm Gwasanaethau Masnachol y Brifysgol i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau gyda'r nos, yn amrywio o Barti Cloi Wythnos y Glas i Bingo Lingo. Denodd y digwyddiadau dros 3,500 o fyfyrwyr yn ystod yr wythnos.

Prosiect Ail-Law

Mae'r Prosiect Ail-Law, a elwid gynt yr 'Arwerthiant Mawr' neu'r 'Big Sale', yn gyfle i fyfyrwyr gael dillad / nwyddau i'r cartref am ddim drwy gydol y flwyddyn, a gallwch hefyd gyfrannu dillad yma. Os oes gan aelodau o staff unrhyw beth i'w gyfrannu, dewch â hwy i dderbynfa Undeb y Myfyrwyr.

Cyfleoedd i Fyfyrwyr

Hoffem hefyd dynnu sylw at y digwyddiadau sydd ar y gweill gan y tîm Cyfleoedd i Fyfyrwyr. Bydd BUCS yn aildechrau ar 12 Hydref. Mae'r digwyddiad Nôl i Aber eleni wedi cael ei gysylltu gyda dathliadau pen blwydd y Brifysgol yn 150, felly bydd digwyddiadau ein clybiau yn cael eu cynnal ar 15 Hydref. Bydd Sialens Aber yn dychwelyd ym mis Tachwedd, yn ogystal â Gŵyl y Celfyddydau ym mis Rhagfyr - dyma fydd y trydydd tro inni gynnal y ddau ddigwyddiad hyn!

Llais y Myfyrwyr

Rydym wedi cyflwyno proses newydd ar gyfer Ethol Cynrychiolwyr Academaidd, a bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal mewn darlithoedd yn ystod y mis hwn. Bydd pob adran yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr pa swyddi Cynrychiolwyr sydd ar gael yn yr etholiad ac yn rhoi gwybod iddynt hefyd yn ystod pa ddarlith y bydd modd iddynt bleidleisio.



Tîm Swyddogion Llawn-Amser UM Aber 2022/23:
Rhes gefn (Chwith i'r Dde): Rachel, Elizabeth. Rhes flaen (Chwith i'r Dde): Dafi, Aisleen, Cameron

Cymrawd yr Academi Beirianeg Frenhinol



Mae'r Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol ac Athro yn yr adran Gyfrifiadureg, wedi cael ei gydnabod am ei gyfraniad eithriadol i beirianeg a thechnoleg wrth ddod yn Gymrawd yr Academi Beirianeg Frenhinol.

Bydd yr Athro Shen yn cael ei dderbyn eleni ynghyd â'r mathemategydd, yr Athro Hannah Fry a Phrif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU Syr Patrick Vallance, sydd ill dau wedi eu penodi yn Gymrodyr er Anrhydedd.

Etholwyd pob un o'r Gymrodyr am eu cyfraniadau nodedig i'w sectorau, gan arloesi gyda datblygiadau newydd, arwain cynnydd mewn busnes neu'r byd academiaidd, darparu cyngor lefel uchel i'r llywodraeth, neu hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o beirianeg a thechnoleg.

Dywedodd hefyd fod yr Athro Shen yn nodedig am ymchwil a datblygiad sy'n arwain y byd ac sy'n torri tir newydd ym maes modelu a dadansoddi data. Mae ganddo gymwysiaidau bywyd go iawn ym meysydd archwilio'r gofod, gwrthderfysgaeth, monitro prosesau, rheoli cludiant a phroffilio cwsmeriaid.

Cafodd ei ddisgrifio fel "arweinydd academiaidd llawn gweledigaeth, sy'n ysbrydoli ac yn meithrin cenedlaethau'r dyfodol o beirianwyr cyfrifiadureg yn fyd-eang".

Cymrodoriaeth fawreddog



Yr Athro Peter Merriman o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeare wedi'i ethol yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Mae'r Athro Merriman yn ddaearyddwr dynol sy'n arbenigo mewn daearyddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol, astudiaethau symudedd, a hanes ac athroniaeth daearyddiaeth fodern.

Mae'n ysgolhaig blaenllaw mewn astudiaethau symudedd a hanes symudedd, ac mae wedi ysgrifennu'n helaeth ar ddulliau damcaniaethol o ymdrin â gofod a lle, hanes y ffordd a gyrru, a damcaniaethau cenedlaetholdeb a hunaniaeth genedlaethol.

Mae Cymrodoriaeth yr Academi yn cynnwys unigolion nodedig o'r sectorau academiaidd, cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ar draws ystod lawn y gwyddorau cymdeithasol.

Mae'r Gymrodyr yn unigolion medrus iawn sy'n cael eu cydnabod am ragoriaeth yn eu meysydd a'u cyfraniadau ehangach i'r gwyddorau cymdeithasol er budd y cyhoedd.

Ethol academyddion o Aberystwyth yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae pedwar academydd o Brifysgol Aberystwyth ymhlith chwe deg chwech o Gymrodyr newydd sydd wedi ymuno â Chymdeithas Ddysgedig Cymru eleni o feysydd ar draws y celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thu hwnt.



Mae'r Athro Iain Donnison yn bennaeth yr Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Mae'n wyddonydd planhigion ac amaeth, yn arbenigwr ar borfeydd trofannol a thymherus, ac mae ei waith yn canolbwyntio ar strategaethau ar gyfer addasu i, a lliniaru, effeithiau newid hinsawdd.



Mae'r Athro Rhys Jones yn gyn Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daeare ac yn ddaearyddwr dynol. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddaearyddiaeth hunaniaeth grwpiau gyda sylw penodol ar ddaearyddiaeth cenedlaetholdeb Cymreig a'r ffordd y mae wedi ei ffurfio gan leoliad.



Mae'r Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnwidd Gwybodaeth ac Arloesedd, yn awdurdod ar faterion yn ymwneud ag iechyd byd-eang a diogelwch, ac yn gyd-olygydd yr *Oxford Handbook on Global Health Politics*.



Mae Dr Eryn White yn Ddarllenydd yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru ac yn hanesydd y cyfnod modern cynnar yng Nghymru. Mae ganddi ddiddordeb penodol mewn crefydd a chymdeithas, gan ganolbwyntio ar arwyddocâd y diwylliant print a thwf Anghydffurfiaeth.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi genedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau a'r gwyddorau. Daw ei Chymrodoriaeth ag arbenigwyr at ei gilydd o bob maes academiaidd a thu hwnt a defnyddir yr wybodaeth gyfunol hon i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysg a darparu cyngor polisi annibynnol.

Mae etholiad i'r Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth, ac yn gystadleuol iawn. Fe'i cynhelir yn dilyn archwiliad trylwyr o gyflawniadau'r rheini a enwebir yn eu meysydd perthnasol.

Dyrchafiadau Academaidd

Mae tri deg o gydweithwyr academaidd yn dathlu eu dyrchafiad i fod yn athro, darlennydd, uwch ddarlithydd, darlithydd, uwch gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil ym mlwyddyn academaidd 2021-22.

Ein Hathrawon newydd yw:



Yr Athro Jamie Medhurst -
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



Yr Athro Huw Morgan -
Adran Ffiseg



Yr Athro Sian Nicholas -
Adran Hanes a Hanes Cymru



Yr Athro David Whitworth -
Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig



Yr Athro Rattan Yadav -
Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Ein Darllenwyr newydd yw:

Dr Maurice Bosch - IBERS

Dr Paul Robson - IBERS

Dr Cathryn Charnell-White - Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Dr Andrew James Davies - Ysgol Addysg

Dr Hywel Griffiths - Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeareg

Dr Thomas Jansen - Adran Cyfrifiadureg

Dr Jacqueline Yallop - Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Ein Uwch Ddarlithwyr newydd yw:

Dr Neil Alexander - Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Dr Malte Urban - Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Dr Greg Bevan - Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Dr Marie Busfield - Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeareg

Dr Ian Chalmers - IBERS

Dr Hefin Williams - IBERS

Dr Rachel Cross - Adran Ffiseg

Dr Gabor Gelleri - Adran Ieithoedd Modern

Dr Jennifer Wood - Adran Ieithoedd Modern

Dr Harry Heuser - Yr Ysgol Gelf

Dr Sarah Higgins - Adran Astudiaethau Gwybodaeth

Dr Peadar O Muircheartaigh - Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Dr Myra Wilson - Adran Cyfrifiadureg

Ein Darlithwyr newydd yw:

Dr Paula Hughes - IBERS

Ein Uwch Gymrodyr Ymchwil newydd yw:

Dr David Bryant - IBERS

Dr Matt Gunn - Adran Ffiseg

Dr Changjing Shang - Adran Cyfrifiadureg

Ein Cymrodyr Ymchwil newydd yw:

Dr Jessica Adams - IBERS

Penodiadau

Croeso cynnes i gydweithwyr a ymunodd â'r Brifysgol yn y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

YR ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL



Mae **Dr Tom Vaughan** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Strategaeth a Chudd-wybodaeth. Derbyniodd Tom ei PhD o Aberystwyth yn 2022 ac yn flaenorol bu'n gweithio ym Mhrifysgol Caerwysg. Mae'n gweithio ym maes gwleidyddiaeth niwclear gritigol, ac mae ei ymchwil cyfredol yn archwilio dychymyg ac adeiladu dyfodolau niwclear (neu ddi-niwclear) amgen. Mae'n datblygu agenda ymchwil ôl-ddoethurol i edrych ar sut y gellir adeiladu'r dychmygiadau gwahanol hyn o ddyfodol niwclear, ac i ba raddau y gallant gynnwys diarfogi niwclear amlochrog.


YR ADRAN CYFRIFIADUREG

Mae'r **Athro Tossapon Boongoen** wedi ymuno â'r adran gan ymgymryd â Chadair. Graddiodd o Brifysgol Cranfield (BEng a PhD), ac roedd yn Gynorthwydd Ymchwil Ôl-Ddoethurol yn Aberystwyth rhwng 2007 a 2010. Yn flaenorol, bu'n Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Mae Fah Luang, Gwlad Thai. Bu'n Brif Ymchwilydd ar bedwar prosiect Cronfa Newton/GCRF a chwe grant cenedlaethol arall yn ystod 2014-2022.



Mae **Dr Natthakan Iam-On** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Cyfrifiadureg. Sicrhodd BSc a MSc o Brifysgol Chaing Mai, Gwlad Thai, ac yna PhD yn Aberystwyth yn 2011. Yn flaenorol, bu'n Athro Cyswllt ac yn Gynorthwydd i'r Llywydd ym Mhrifysgol Mae Fah Luang, Gwlad Thai. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar wyddor data a pheirianneg, gan gynnwys dysgu ensemble a'i gymwysiaidau i ddadansoddi data.

Mae **Dr Maxim Buzdalov** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Cyfrifiadureg. Sicrhodd Maxim PhD ym Mhrifysgol ITMO, St Petersburg, Rwsia yn 2014, lle'r oedd hefyd yn arwain labordy ar gyfrifiannu esblygiadol tan 2022. Mae ei brif feysydd ymchwil yn cynnwys algorithmau esblygiadol, yn ogystal ag algorithmau a strwythurau data uwch.



YR ADRAN DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR



Mae **Dr Bethany Simmonds** wedi'i phenodi'n Uwch Ddarlithydd mewn Cymdeithaseg yn yr adran, i arwain a datblygu'r rhaglen Cymdeithaseg newydd a lansiwyd yn 2019. Arbenigedd ymchwil Bethany yw cymdeithaseg heneiddio ac iechyd,

gan dynnu ynghyd ddadansoddiadau ar lefel fyd-eang, genedlaethol, lleol ac unigol.

YR ADRAN ASTUDIAETHAU THEATR, FFILM A THELEDU

Mae **Sarah-Jane Harrison** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Sinematograffi. Mae newydd gwblhau MA mewn Ffilm a Theledu Byd-eang ym Mhrifysgol Hertfordshire. Ar ôl gweithio am flynyddoedd lawer yn yr adran camerâu ar ffilmiau a rhaglenni teledu, ymunodd â Phrifysgol Westminster yn dechregydd ffilm ac yn ddiweddar mae wedi bod yn darlithio mewn Sinematograffi ym Mhrifysgol South Bank Llundain.



Mae **James Caddick** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Golygu ac Effeithiau Gwledol. Mae gwaith a gyfarwyddwyd ganddo wedi ennill gwobrau gan gynnwys dogfennau i'w darlledu ac annibynnol, hysbysebion teledu, fideos cerddoriaeth a ffilmiau byr. Mae ei waith wedi'i ddangos mewn gwyliau ffilm rhyngwladol gan gynnwys Caeredin, Milan, Cannes a Gŵyl Ffilmiau Llundain y BFI.

SEFYDLIAD Y GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG

Mae **Dr Amanda Holder** wedi ymuno â'r Brifysgol yn Gynorthwydd Ymchwil Ôl-Ddoethurol ar y prosiect Perennial Biomass Crops for Greenhouse Gas Removal, â'r nod o ganfod nodweddion mewn genoteipiau miscanthws gwahanol sy'n cael effaith positif ar storio carbon mewn pridd. Cwblhaodd Amanda PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth a chyn hyn bu'n gweithio gyda Chanolfan Ecoleg a Hydroleg y DU ar ei phrif ddiddordeb ymchwil sef rhyngweithiadau planhigion-pridd-amgylchedd.



Mae **Dr Beatrice Elohor Ife** wedi ymuno ag IBERS yn Uwch Gymrawd Ymchwil mewn Bridio Planhigion. Yn flaenorol bu'n Uwch Ddarlithydd ac Arweinydd Rhaglen Bridio Corn Canolfan Gwella Cnydau Gorllewin Affrica, Prifysgol Ghana. Ei diddordeb ymchwil yw gwella cnydau ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy, cnwd uchel ac ymwrthedd i dyndra biotig a gwrthfotig. Bydd yn arwain ar fridio miscanthws yn IBERS.

YR ADRAN IEITHOEDD MODERN

Mae **Dr Sarah Gubbins** wedi ymuno â'r adran yn Ddarlithydd Ffrangeg. Mae'n gweithio ar farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar ryddiaith gan feirdd, yn enwedig Gérard de Nerval a Charles Baudelaire. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng barddoniaeth a gwleidyddiaeth yn Ffrainc y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



YR ADRAN GWYDDORAU BYWYD



Mae **Gabriel Rinaldi**, MD, PhD wedi ymuno â'r adran yn Gymrawd Arweinwyr y Dyfodol UKRI. Fel Uwch Wyddonydd Staff yn Sefydliad Wellcome Sanger datblygodd lwyfan genomeg gweithredol ar gyfer llyngyr lledog, gan gynnwys defnyddio

transcriptomeg celloedd unigol a golygu genomau i asesu cwestiynau biolegol sylfaenol y parasitiaid hyn. Gyda'r Gymrodoriaeth caiff ei sefydlu'n arweinydd arloesol yn yr Adran Gwyddorau Bywyd gan hwyluso cyflawni prosiect ymchwil uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar fioleg foleciwlaidd a datblygiadol schistosomau, asiantau clefydau trofannol pwysig a esgeuluswyd.

Mae **Dr Peter Korsten** wedi ymuno â'r Adran Gwyddorau Bywyd yn Ddarlithydd mewn Sŵoleg Fertebraidd. Cyn ymuno â ni, bu Peter mewn swyddi addysgu ac ymchwil ym mhrifysgolion Bielefeld (yr Almaen), Antwerp (Gwlad Belg), a Chaeredin. Sicrhaodd ei PhD ym Mhrifysgol Groningen (yr Iseldiroedd). Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall gwahaniaethau unigol mewn ymddygiad a llwyddiant atgenhedlol anifeiliaid yn eu hamgylchedd naturiol.



Y GANOLFAN ADDYSG GOFAL IECHYD



Mae **Bleddyn Lewis** wedi ymuno â'r Ganolfan yn Uwch Ddarlithydd ac Arweinydd Maes Nyrsio Iechyd Meddwl. Cyn hyn, mae Bleddyn wedi gweithio mewn amrywiol leoliadau ac arbenigeddau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn fwyaf diweddar fel Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Oedolion. Mae ganddo amrywiaeth o ddiddordebau proffesiynol gan gynnwys arweinyddiaeth dosturiol a gwella addysg iechyd meddwl drwy addysg yn seiliedig ar efelychu.

Mae **Devibala Kasinathan** wedi ymuno â'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd yn ddarlithydd Nyrsio. Sicrhaodd ei gradd nyrsio uwchraddedig yn India, ac yn dilyn hynny dechreuodd ddysgu myfyrwyr nyrsio. Cyn ymuno â Phrifysgol Aberystwyth fe'i cyflogwyd yn arweinydd tîm yn adran frys Ysbyty Bronglais.



Mae **Darren Prince** wedi ymuno'n Ddarlithydd Iechyd Meddwl mewn Addysg Gofal Iechyd i helpu i gyflwyno'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl oedolion sydd newydd ei dilysu. Cymhwysodd yn nyrs iechyd meddwl o Brifysgol Caerdydd a bu'n ymarfer mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn, yn arbenigo mewn gofal dementia. Roedd yn Uwch Ddarlithydd mewn Nyrsio Iechyd Meddwl am dros un deg saith o flynyddoedd ym Mhrifysgol De Cymru, lle'r oedd hefyd yn gydlynnydd sgiliau clinigol ac Arweinydd Arbenigol ar gyfer Iechyd Meddwl.



Mae **Eva Baglova** yn ymuno â'r adran yn Ddarlithydd mewn Bioseicoleg. Graddiodd o Brifysgol Lerpwl a chwblhaodd MSc mewn Seicoleg Glinigol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor, ac arhosodd yno i ymgymryd â PhD mewn Niwrowyddoniaeth

YR ADRAN SEICOLEG




Wybyddol. Mae ymchwil Eva'n edrych ar y cysylltiad rhwng cydberthnasoedd niwral sy'n sail i wybyddiaeth semantig a chymdeithasol drwy amrywiol ddulliau ymddygiadol a niwroddelwedd fel delweddau cyseiniant magnetig gweithredol (fMRI) ac Ysgogi Trawsgreuanol Magnetig (TMS).

YR YSGOL ADDYSG

Ymuna **Sara Tudor** a thîm Tiwtoriaid Cyswllt rhaglen TAR yr Ysgol Addysg lle bydd hi'n hyfforddi ac yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Bu Sara'n dysgu am 17 mlynedd mewn ysgolion cynradd ym Mhowys ac roedd yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion o 2014-2022. Graddiodd o Brifysgol Leeds gyda gradd mewn Mandarin.

GWASANAETHAU MYFYRWYR



Mae **Sara Childs** wedi ymuno â'r adran Lles yn y Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymarfer yd ag arbenigedd cwnsela. Mae'n gyn Bennaeth Saesneg ym Machynlleth, a ailhyfforddodd yn gwnselydd, gyda diddordeb arbennig mewn pobl ifanc. Roedd ei rolau blaenorol yn cynnwys Tiwtor Cwnsela yn New Pathways a Chwnselydd yng Ngholeg Ceredigion. Ar hyn o bryd mae'n cwblhau gradd Meistr, yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cwnsela.

YR ADRAN CYLLID



Ymunodd **Genevieve Roberts** â'r adran yn Gyfrifydd Treth ac Ariannol ym mis Gorffennaf 2022. Graddiodd Genevieve o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd yn y Gyfraith cyn dechrau ei gyrfa'n gyfrifydd yn gweithio mewn practis. Mae Genevieve yn gyfrifydd siartredig ardystiedig.

YR ADRAN CYLLID

Mae **Genevieve Roberts** â'r adran yn Gyfrifydd Treth ac Ariannol ym mis Gorffennaf 2022. Graddiodd Genevieve o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd yn y Gyfraith cyn dechrau ei gyrfa'n gyfrifydd yn gweithio mewn practis. Mae Genevieve yn gyfrifydd siartredig ardystiedig.



Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

19:30, Nos Iau 10 Tachwedd

Bartók Hungarian Sketches
Elgar Cello Concerto
Mendelssohn Symffoni Rhif 3 'Albanaidd'

Gergely Madaras - arweinydd
Santiago Cañón-Valencia - soddgrwth

Mae Brasluniaid Hwngaraidd Bartók wedi cael eu dylanwadu'n fawr gan y gerddoriaeth gwerin Hwngaraidd a Rwmanaidd a glywodd wrth deithio. Maen nhw'n cyfuno dawnys hwyliog ag alawon telynegol rhagorol, yn ogystal â phortread doniol o berson meddw! Mae alawon rhapsodiaidd gyda chyfeiriadau fizzardato yn arwain y ffordd tuag at feistrolaeth a bravado Prydeinig yng Nghoncerto i'r Soddgrwth poblogaidd Elgar, er nad yw ei sarugrwydd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf byth yn bell o'r wyneb, gyda themâu pendant ond grymus, egni sionc a rhinweddau myfyriol.



O ddatblygiadau stormus a scherzo sionc i berseinedd sentimental a naws ysgafn tebyg i'r un yn Midsummer Night's Dream, cafodd Trydedd symffoni Mendelssohn ei hysbrydoli gan daith y cyfansoddwr i'r Alban nôl yn 1829. Wedi'i nodweddau gan egni ffyrnig, cyfalaw gyfrwys a nodweddion darluniadol byw, brasluniodd Mendelssohn rhan fwyaf o'i waith yn dilyn ei daith i ymweld ag adfeilion Palas Holyrood, er iddo beidio â chwblhau'r gwaith am dros 10 mlynedd yn ddiweddarach. Mae'n bleser gennym gyflwyno cynulleidfaoedd ledled Cymru i'r arweinydd Hwngaraidd hynod dalentog, Gergely Madaras.



Tachwedd 15 - 20 November 2022 (Aberystwyth)
Tachwedd 25 - 27 November 2022 (Ar-lein / Online)

www.abertoir.co.uk

Gŵyl Arswyd Ryngwladol Abertoir

15-20 Tachwedd

25-27 Tachwedd (Ar-lein)

Yn ôl am ei hail flwyddyn ar bymtheg, mae Abertoir unwaith eto yn dod â'r teitlau newydd gorau sydd heb eu rhyddhau i Aberystwyth. Gyda gwesteion newydd, anerchiadau, cyflwyniadau a llawer mwy 'rydym hyd yn oed yn cynllunio digwyddiad cyffrous a fydd yn mynd ag Abertoir ledled y wlad! Ewch i www.abertoir.co.uk neu ein tudalen facebook wrth i ni raddol ddatgelu mwy ...

Ballet Cymru: Dream

18:00, Nos Fawrth 22 Tachwedd (perfformiad ymlaciedig)

19:30, Nos Fercher 23 Tachwedd

Mae DREAM yn bale llawn newydd, bywiog, ffres ac arloesol sy'n seiliedig ar waith Shakespeare, A Midsummer Night's Dream. Gan weithio gyda'r offerynnwr a'r cyfansoddwr sydd wedi ennill sawl gwobr, Frank Moon, mae Ballet Cymru wedi creu byd hudolus o dylwyth teg, cariadon a swyngyfaredd s'yn hyblyg o rhan rhywedd. Mae DREAM yn aildehongliad disglair ar ffurf bale ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac yn cynnwys dawnswyr arloesol Ballet Cymru, tafluniad fideo trawiadol, a choreograffi arloesol gan y Cyfarwyddwyr Artistig Darius James OBE ac Amy Doughty.



©Sian Trenberth